

## Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod mis Mai 2017 tan fis Mai 2018 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

|                                      |                                    |
|--------------------------------------|------------------------------------|
| <b>Y Cynghorydd: Dorian Williams</b> | <b>Adran Etholiadol: Abergwili</b> |
|--------------------------------------|------------------------------------|

|   |
|---|
| <b>Rhan 1: Rôl a Chyfrifoldebau</b>   |
| <b><i>Pwyllgorau'r Cyngor:</i></b>  |
|   |
| Y Cyngor Llawn  |
| Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant   |
| Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd  |
| Pwyllgor Apelau   |
|   |
| <a href="http://democracy.carmarthenshire.gov.wales/mqUserInfo.aspx?UID=497">http://democracy.carmarthenshire.gov.wales/mqUserInfo.aspx?UID=497</a> |

|  |
|--|
| <b>Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth</b>  |
| <p>Yn fy mlwyddyn gyntaf fel Cynghorydd, cysylltais gyda'm etholwyr, yn bennaf drwy ymweliadau i'w cartrefi (ar feic lle bo modd!) yn ogystal â'r dulliau arferol ond yn sicr llai personol sef drwy e-byst, llythyron a galwadau ffôn.</p> <p>Gyda'r bwriad o wella gwasanaethau a safon bywyd trigolion Ward Abergwili, dyma'r pynciau amrywiol y bûm yn ymwneud â nhw:</p> <ol style="list-style-type: none"><li><b>Llwybrau cyhoeddus</b> – Cynnal a chadw llwybrau cerdded. Atgyweirio sticlau a gatiau a delio ag achosion o broblemau o ran mynediad ac arwyddion diffygiol.</li><li><b>Ffyrdd a phalmentydd</b> – Awgrymu i'r Adran Briffyrdd dargedu llw o achosion amrywiol gyda'r bwriad o wella diogelwch a hynny fel ychwanegiadau i'r gwaith a gynlluniwyd ymlaen llaw ganddynt. Ymhlith y pynciau oedd ailwynebu hewlydd, torri coed oedd yn hongian yn isel, gosod arwyddion newydd yn rhybuddio am beryglon annisgwyl, torri cloddiau a phorfa wrth ymyl y ffordd a rhoi gwybod am ddiffygion lampau stryd. Her sylweddol, ond yn anffodus heb ei datrys, fu'r ymdrechion i gydweithio ag eraill i geisio rheoli gorgyflymdra trafnidiaeth ar y priffyrdd mwyaf yn y ward sef yr A485 a'r A40(T).</li><li><b>Tai a Chynllunio</b> – Delio â phroblemau yn ymwneud â thrwsio a chynnal tai Cyngor. Ymweliadau safle niferus i geisio cynghori, awgrymu gwelliannau, cefnogi a gwrthwynebu ceisiadau cynllunio ar gyfer tai preifat, datblygiad ystadau sylweddol o ran maint mewn pentrefi a cheisiadau gwledig ar ffermydd yn y ward. Trefnu lloches i unigolion di-gartref. Cefnogi ceisiadau unigolion oedrannus a bregus eu hiechyd i symud i gartrefi gofal neu i fyngalo tipyn mwy addas na'u cartref blaenorol.</li></ol> |

#### 4. Delio yn y ffordd orau bosib ag argyfyngau amrywiol – bach a mawr

- Llifogydd annisgwyl i dai unigolion
- Peryglon iechyd a diogelwch, e.e. parc chwarae plant lleol
- Problem gyda phibelli carthffosiaeth yn sgil cyfnod hir o law trwm
- Llygredd yn llifo i nant gan achosi halogiad
- Gwaredu Himalayan Balsam, chwyn peryglus ymwithiol
- Difrod i eiddo personol o ganlyniad i ddamweiniau ceir
- Adrodd yn ôl i'r Sir am broblemau sbwriel penodol mewn gwahanol fannau ar draws y ward

### Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion

| <i>Rhestr o Gyrff Llywodraethu Ysgolion</i> | <i>Cofnod Presenoldeb</i>  |               |
|---|----------------------------|---------------|
|   | <i>Nifer o gyfarfodydd</i> | <i>Canran</i> |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Peniel Rhif 93      | 4 allan o 5                | 80%           |

### Rhan 4: Cynrychiolaeth Cyrff Allanol

| <i>Rhestr o gyrff allanol</i>   | <i>Cofnod Presenoldeb</i>  |               |
|---|----------------------------|---------------|
|   | <i>Nifer o gyfarfodydd</i> | <i>Canran</i> |
| Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn/Tywi Gateway Trust               | 2 allan o 3                | 67%           |
| Aelod o Banel Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Brechfa o dan adain Antur Teifi | 1 cyfarfod hyd yma         | 100%          |

### Rhan 5: Dysgu a Datblygu

- Hyfforddiant TG e.e. Trawsnewid Digidol
- Y Cod Ymddygiad
- Materion Cyllidol
- Materion Cyfansoddiadol a Gwe-ddarlledu
- Sut mae defnyddio diffibrileiddiwr
- Cyflwyniad i Gynllunio
- Hyfforddiant ar waith a threfniadau'r Pwyllgor Apelau
- Marchnata a'r Cyfryngau
- Materion yn ymwneud â'r amgylchfyd
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Y Cynllun Datblygu Lleol newydd

Mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan:

- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

#### **Rhan 6: Gweithgareddau a Materion Eraill**

- Mynychu cyfarfodydd misol Cyngor Cymuned Abergwili gan gyflwyno adroddiad ysgrifenedig o'r materion a ddeliwyd gennyf yn y mis blaenorol.
- Hefyd, mynychu ac adrodd yn ôl fel uchod i Gyngorwyr Cyngor Cymuned Llanllawddog sy'n cwrdd bob deufis.
- Mynychu Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr Iaith Gymraeg a drefnir yn dymhorol gan Gyngor Sir Caerfyrddin.
- Trefnais gyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Peniel o dan y thema Adfywio'r Ardal. Canolbwyntiais ar gyflwyno ac yna hybu'r meysydd allweddol: Amaethyddiaeth, Iechyd, Creu Swyddi, Tai, Band Llydan, Cynllunio ac Economi Ymwelwyr. Bydd rheidrwydd dychwelyd i'r pynciau pwysig yma yn y dyfodol a hynny er lles holl drigolion y ward.

**Llofnodwyd gan y Cynghorydd: D T Williams**

**Y Dyddiad: 12 Awst 2018**